# Cynllun Gweithredu Cymru ynghylch ASD

cylchlythyr cyhoeddus

rhifyn 1: Mai 2010



## Cynllun Gweithredu Strategol Cymru ynghylch Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistaidd

Cyhoeddwyd y cynllun fis Ebrill 2008. Cymru yw'r unig wlad yn y byd i lunio strategaeth i'r rhai o bob oedran sydd ag awtistiaeth. Yn sgîl y cynllun, pennwyd nifer o gamau y bydd rhaid i wasanaethau lleol eu cymryd i ddiwallu anghenion pobl ifanc ac oedolion sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd (ASD). Wrth gyhoeddi'r cynllun, neilltuodd Llywodraeth y Cynulliad £5.4 miliwn i helpu'r 22 awdurdod lleol i lunio ffyrdd o ddiwallu anghenion y rhai sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd yn eu hardaloedd nhw.

## Sut rydyn ni'n rhoi'r cynllun ar waith?



Ar ôl cyhoeddi'r cynllun, roedd yn bwysig helpu i ddatblygu gwasanaethau gwladol, rhanbarthol a lleol. Mae'r bobl allweddol yn cydweithio bellach i sefydlu gwasanaethau i'r rhai sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd a lledaenu arferion da trwy Gymru i gyd. I gyflawni nodau gwladol y cynllun, mae rheolwr gweithredu ymhlith swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. I gyflawni'r nodau rhanbarthol, mae tîm cymorth rhanbarthol yn swyddfa Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) sy'n helpu pobl ym mhob ardal i lunio mentrau rhanbarthol ar y cyd. I gyflawni'r nodau lleol, mae gan bob awdurdod lleol swyddog arweiniol dros anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd ynghyd â chynllun gweithredu wedi'i baratoi gan gylch o fudd-ddalwyr lleol. Y cylch hwnnw fydd yn gyfrifol am roi'r cynllun ar waith a'i adolygu, hefyd.
I gael gwybodaeth am eich cynllun gweithredu lleol a/neu gylch y budd-ddalwyr lleol, anfonwch neges at: ASDinfo@WLGA.gov.uk.

## Y cylchlythyr hwn



Diben y cylchlythyr hwn yw rhoi gwybod i bobl a chanddyn nhw anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd, eu teuluoedd a'u cynhalwyr am faint mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i gyflawni ynglŷn â'r cynllun gweithredu.

Fis Hydref 2010, byddwn ni'n cyflwyno gwefan gyhoeddus newydd o'r enw 'Materion ASD'. Bydd ar y wefan lawer o wybodaeth am yr anhwylderau a'r modd mae'r cynllun gweithredu'n gwella'r sefyllfa ledled y wlad. Bydd y cylchlythyr hwn ar gael ar y wefan ond, yn y cyfamser, byddwn ni'n ei ledaenu trwy ebost ac ar ffurf copi caled mewn seminarau ac ati.

## Canolfan ymchwil i Gymru ynglŷn ag awtistiaeth

Ar 2il Ebrill 2010, dechreuodd Canolfan Ymchwil Cymru dros Awtistiaeth – rhan o Brifysgol Caerdydd – ei gwaith. Mae bwriad i'w chyflwyno'n ffurfiol ar 23ain Medi. Yr Athro Sue Leekam yw cyfarwyddwr y ganolfan a phennaeth astudiaethau am awtistiaeth. Bydd yn arwain tîm o ymchwilwyr mewn gorchwylion newydd a chyffrous ym maes awtistiaeth. Er mai Awtistiaeth Cymru gychwynnodd y prosiect hwn trwy sefydlu partneriaeth gyda Phrifysgol Caerdydd ac elusen Autistica, Llywodraeth y Cynulliad sy'n ei ariannu. Felly, mae Cymru yn cymryd rhan flaengar ym maes ymchwil i awtistiaeth. Mae rhagor o wybodaeth am waith y ganolfan ar: http://www.cardiff.ac.uk/psych/home2/warc/

*Mae'r cylchlythyr hwn wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y cyd*

## Deunyddiau codi ymwybyddiaeth



Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n llunio amryw ddeunyddiau codi ymwybyddiaeth i arbenigwyr. Bydd y deunyddiau'n helpu i dynnu sylw at anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd ac yn targedu amryw garfanau a sefydliadau arbenigol megis meddygon teulu, ysgolion, cyfundrefn cyfiawnder troseddol, deintyddion, optegwyr, gwasanaethau i bobl hŷn, offeiriaid a chanolfannau hamdden. Mae cynrychiolwyr amrywiaeth helaeth o gyrff yn ymwneud â llunio'r deunyddiau a fydd ar gael eleni ar wefan newydd mae Llywodraeth y Cynulliad am ei sefydlu, 'Materion ASD'.



## Ymchil ynglŷn â phobl hŷn

Ar hyn o bryd, dydyn ni ddim yn gwybod llawer am beth sy'n digwydd i bobl a chanddyn nhw awtistiaeth ar ôl cyrraedd oed pensiwn gwladol. Felly, gofynnodd Llywodraeth y Cynulliad i brifysgolion Morgannwg a Bangor roi sylw i anghenion pobl hŷn o'r fath. Maen nhw wedi gorffen yr ymchwil bellach a rhoi amryw argymhellion. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i'r Athro Sue Leekam, pennaeth astudiaethau am awtistiaeth, i weithio ar y cyd â'r bobl alweddol a llunio set o gynigion i'w rhoi gerbron Gweinidogion Cymru erbyn 30ain Tachwedd.

## Prosiectau rhanbarthol




O fis Ebrill 2010, bydd 22 brosiect lleol a rhanbarthol newydd yn mynd yn eu blaen dan nawdd Llywodraeth y Cynulliad. Bydd y prosiectau o les i'r rhai sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd, eu teuluoedd a'u cynhalwyr. Un o amodau cymorth ariannol Llywodraeth y Cynulliad yw bod rhaid lledaenu canlyniadau'r prosiectau llwyddiannus trwy'r wlad i gyd maes o law.

Mae llawer o'r prosiectau hynny'n torri cwys newydd a byddan nhw'n helpu i greu gwell gwasanaethau a helpu pobl i ddeall anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd yn well. Dyma rai enghreifftiau:

- Taflen i roi gwybodaeth i deuluoedd a chynhalwyr ar ôl diagnosis
- Hyfforddi arbenigwyr ynghylch asesu anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd
- Llunio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol i bobl ifanc sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd, eu rhieni a'u cynhalwyr

Bydd rhagor o wybodaeth am y prosiectau yn rhifyn nesaf y cylchlythyr hwn.

*Mae'r cylchlythyr hwn wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y cyd*

## Rhagor o arian i oedolion sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd yng Nghymru



Yn sgîl cyhoeddi'r cynllun gweithredu strategol, sefydlwyd cylch 'gorchwyl a gorffen' i ystyried anghenion oedolion sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd yng Nghymru. Yn ei adroddiad, pennodd y cylch amryw anghenion o'r fath ac argymell ffyrdd o'u diwallu.

Yn ymateb i'r adroddiad, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas, y byddai £1.7 miliwn ar gael dros dair blynedd ar gyfer datblygu a gwella gwasanaethau i oedolion sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd, eu teuluoedd a'u cynhalwyr.

Defnyddir yr arian i ddatblygu gwasanaethau fydd yn helpu oedolion sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd i gyflawni eu llawn dwf. Bydd y gwasanaethau'n ymwneud â sawl sefydliad gan gynnwys y GIG a'r awdurdodau lleol, gan drin a thrafod pynciau megis asesu a diagnosis, rhoi gwasanaethau ar gael, cymorth yn y gymuned, swyddi a thai. Bydd rhagor am y gwaith hwn yn rhifyn nesaf y cylchlythyr.

### Prosiectau eraill y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu hariannu yn 2010



**Asesu a diagnosis ynglŷn â phlant**

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gofyn i Ganolfan Ymchwil Cymru dros Awtistiaeth a Phrifysgol Bangor i edrych ar y modd mae plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu o ran anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd yng Nghymru. Bydd staff y ganolfan a'r brifysgol yn cysylltu ag arbenigwyr pob un o wasanaethau Cymru i gael gwybod sut maen nhw'n asesu plant a'r ifainc.

**Paratoi cofrestr ynglŷn ag anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd**

Bydd ymchwilwyr Prifysgol Bangor a Chanolfan Ymchwil Cymru dros Awtistiaeth (Prifysgol Caerdydd) yn cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ystyried pa mor ddichonol fyddai paratoi cofrestr a chronfa ddata ynglŷn ag anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd. Bydd canlyniadau'r ymchwil ar gael ymhen rhyw 18 mis.

### Faint rydyn ni wedi'i gyflawni yn ystod y ddwy flynedd cyntaf?

Mae llawer wedi'i gyflawni dros y ddwy flynedd ers cyflwyno'r cynllun gweithredu. Mae angen inni gael gwybod sut mae'r gwaith wedi effeithio ar unigolion, teuluoedd a gwasanaethau. I'r perwyl hwnnw, mae Llywodraeth y Cynulliad ar fin dechrau cloriannu'r cynnydd dros y ddwy flynedd cyntaf gan nodi ble rydyn ni ar y trywydd iawn a ble mae eisiau cryfhau'r trefniadau. Byddwn ni'n gofyn ichi fynegi'ch barn ac mae gwir angen i bawb gymryd rhan yn y broses.

### Cyflwyno sylwadau, awgrymiadau ac ati

Mae croeso ichi gyflwyno sylwadau ac awgrymiadau am y rhifyn hwn a'r rhai sydd i'w cyhoeddi:
ASDinfo@WLGA.gov.uk / Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol, Tŷ Llywodraeth Leol, Rhodfa Drake, Caerdydd, CF10 4LG

*Mae'r cylchlythyr hwn wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y cyd*